**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD EUR-05-01(agd)**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 17 Hydref 2001 |
| Amser: | 9.00am |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**AGENDA**

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

**Papur:** EUR-05-01(p.1)

Bydd y Cadeirydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 2: Rhwydwaith y Tele-Ranbarthau**

**Papur:** EUR-05-01(p.2)

Bydd yr e-Weinidog yn rhoi adroddiad ynghylch gwaith Rhwydwaith y Tele-Ranbarthau.

**Eitem 3: Trafodaeth gyda'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Materion Gwledig**

Bydd y Pwyllgor yn trafod mater cydlynu materion Ewropeaidd gyda'r pwyllgor amaethyddiaeth.

**Eitem 4: Adroddiad ar gyfarfod cyntaf y Gweithgor Ehangu**

**Papur:** EUR 05-01(p.3)

Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar gyfarfod cyntaf y Gweithgor Ehangu.

**Eitem 5: Datblygu Cynaliadwy mewn cyd-destun Ewropeaidd**

**Papur:** EUR-05-01(p.4)

Bydd y pwyllgor yn nodi'r papur.

**Eitem 6: Pwyllgor Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol Ewrop**

**Papur:** EUR-05-01(p.5)

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y trefniadau diweddaraf ar gyfer aelodaeth Cymru o'r CPMR.

**Eitem 7: Y Polisi Cydlynu yng nghyd-destun Ehangu**
**Papur:** EUR-05-01(p.12)

Bydd swyddogion o'r Adran Masnach a Diwydiant yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ar ddyfodol polisi cydlynu'r Undeb Ewropeaidd yng nghyd-destun ehangu

**Eitem 8: Cyfarwyddeb Arfaethedig ar Wybodaeth ac Ymgynghori â Gweithwyr**

**Papur:** EUR-05-01(p.6)

Bydd y pwyllgor yn trafod y gyfarwyddeb arfaethedig.

**Eitem 9: Ymchwiliad i ddemocratiaeth ac atebolrwydd yn yr UE ac i rôl y seneddau cenedlaethol**

**Papur:** EUR-05-01(p.7)

Bydd y Pwyllgor yn ystyried gwneud cyflwyniad i ymchwiliad Pwyllgor Craffu

**Eitem 10: Y Trefniadau ar gyfer y Papur Gwyn ar Lywodraethu**

**Papur:** EUR-05-01(p.8)

Bydd y Pwyllgor yn nodi'r papur ac yn cytuno ar y trefniadau ar ei gyfer.

**Eitem 11: Adroddiadau oddi wrth y Gwahoddedigion Sefydlog**

**Papur:** EUR-05-01(p.9) – Adroddiad oddi wrth ASEau

Caiff cynrychiolwyr o Senedd Ewrop, Pwyllgor y Rhanbarthau, y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol, a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru eu gwahodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 12: Y Cyfarfod Brusells**

**Papur: EUR-05-01(p.10)**

Bydd y Pwyllgor yn trafod trefniadau'r pwyllgor nesaf a gynhelir ym Mrwsel ar 5 Rhagfyr

**Eitem 13: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:** EUR-04-01(cof)

Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Papurau i’w nodi**

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddeb ar Weithfeydd Ymlosgi Mawr | EUR-05-01(p.11) |